# Pasbort symud ymlaen o CAMHS

Yn aml iawn, gall symud o wasanaethau iechyd meddwl i blant i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion fod yn gyfnod anodd. Efallai eich bod yn poeni am beth i'w ddisgwyl neu'n nerfus am newid cymorth.

## Ar gyfer beth mae'r pasbort?

Mae'r pasbort yn un ffordd i adael i bobl yn eich tîm CAMHS wybod 'chydig mwy amdanoch chi a beth fydd yn digwydd pan fyddwch chi'n symud ymlaen o CAMHS. Mae'n rhoi'r cyfle i chi ddweud beth sy'n bwysig i chi, beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb weithio yn y gorffennol a beth hoffech chi ei weld yn digwydd o ran eich gofal a'ch triniaeth yn y dyfodol.

Gallwch ei lenwi a'i roi i'ch gweithiwr allweddol neu i'ch cydlynydd gofal, a gofyn iddo gadw copi gyda'ch cofnodion.

## Pwy ddylai weld fy mhasbort?

Dylech gadw copi i chi'ch hun a rhoi copi i'ch tîm CAMHS a gofyn am ei ychwanegu at eich cofnodion. Efallai yr hoffech roi copi i riant neu oedolyn rydych yn ymddiried ynddo hefyd.

Mae'n bosib y bydd copi yn cael ei roi i'ch tîm iechyd meddwl oedolion, ond mae'n syniad da holi rhywun yn eich tîm CAMHS. Os nad ydych chi am i'ch tîm iechyd meddwl oedolion gael copi, dylech ofyn i'ch tîm CAMHS ei dynnu oddi ar eich cofnodion.

## Beth os ydw i am gynnwys rhagor o wybodaeth?

Mae'n well i'ch pasbort fod yn ddwy dudalen ar y mwyaf, er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i'r bobl sy'n gysylltiedig â'ch gofal a'ch triniaeth allu ei ddarllen yn gyflym. Bydd yn llai tebygol o fynd ar goll fel hyn hefyd. Os oes darnau o wybodaeth ychwanegol sy'n wirioneddol bwysig yn eich barn chi, gallech eu nodi ar ddarn arall o bapur a gofyn am gael eu cadw gyda'r pasbort.

## Pasbort symud ymlaen o CAMHS

| **Gair amdana i** | |
|---|---|
| Enw llawn: | Dyddiad geni: |
| Rwy’n hoffi cael fy ngalw yn: | |
| Sut rwyf am i chi gysylltu â mi (cyfeiriad e-bost neu rif ffôn): | |
| Enw a manylion cyswllt y gweithiwr allweddol/cydlynydd gofal yn CAMHS: | Enw a manylion cyswllt y prif gyswllt yn y gwasanaethau i oedolion: |
| Hoffwn i fy mhrif gyswllt yn y gwasanaethau i oedolion gael copi o’r pasbort hwn [✓/✗] | |
| Yr hyn hoffwn i chi ei wybod amdana i (hoff a chas bethau, targedau, gobeithion ar gyfer y dyfodol, y bobl sy’n bwysig i mi): | |
| Fy hanes gyda CAMHS (pam ddechreuais i weithio gyda CAMHS, pa therapïau a thriniaethau rydw i wedi’u cael) | |
| Y cymorth rwyf wedi’i gael gan CAMHS sydd wedi bod yn ddefnyddiol: | Y cymorth rwyf wedi’i gael gan CAMHS nad yw wedi bod yn ddefnyddiol: |

| **Cynllun symud ymlaen** |
|---|
| Pryderon neu gwestiynau sydd gennyf ynghylch symud i wasanaethau i oedolion |
| Y cymorth rwy'n dymuno ei gael gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion: |
| Y pethau rwy'n eu cael yn anodd ac yr hoffwn eu gweld yn newid drwy weithio gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion: |
| Y cymorth rwy'n ei gael y tu allan i wasanaethau'r GIG (ee cymorth gan gymheiriaid, eiriolaeth, diddordebau, ysgol, gofal cymdeithasol): |
| Y pethau rwy'n eu gwneud fy hun, sy'n fy helpu i pan fyddaf i'n cael trafferthion gyda fy iechyd meddwl: |
| Sut hoffwn i fy rhiant/fy ngofalwr fod yn rhan o'r broses wrth i mi symud ymlaen i wasanaethau i oedolion?<br><br>Dyma'r wybodaeth yr hoffwn i chi ei rhannu â fy rhiant/fy ngofalwr:<br><br>Enw a manylion cyswllt fy rhiant/fy ngofalwr: (gadewch yn wag os nad ydych am i'ch rhiant/gofalwr fod yn rhan o'r broses) |